

Refferendwm yr UE: Diweddariad i ymgyrchwyr Rhif 3

Tachwedd 2015

Ymunwch â'n rhestr ddiweddaru

Gallwch gofrestru i dderbyn y
diweddariadau hyn ar ein
[gwefan](#) neu drwy ffonio 0333
103 1929

Mae Llywodraeth y DU
wedi cyflwyno deddfwriaeth
i gynnal refferendwm ar
aelodaeth y DU o'r UE
erbyn diwedd 2017. Nid yw
union ddyddiad y
refferendwm yn hysbys eto.

Mae'r Bil, sy'n nodi sut y
caiff y refferendwm ei
gynnal a'r rheolau y mae'n
rhaid i ymgyrchwyr eu dilyn,
wrthi'n cael ei ystyried gan
Senedd y DU.

Ni sy'n rheoleiddio arian a
gwariant gwleidyddol. Ein

nod yw sicrhau uniondeb a
thryloywder o ran cyllid a
gwariant ar ymgyrchu i
bleidleiswyr.

Rydym yn cofrestru
ymgyrchwyr ac yn
rheoleiddio eu gwariant a'u
rhoddion mewn refferenda.

Unwaith y daw'r Bil yn
gyfraith byddwn yn
cyhoeddi canllawiau i
ymgyrchwyr.

Tan hynny, byddwn yn
cyhoeddi cyfres o
ddiweddariadau ar eich
cyfer.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn seiliedig ar Fil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ('y Bil'). Mae Senedd y DU wedi cytuno ar egwyddorion y Bil ac mae wrthi'n ystyried diwygiadau, felly gall rhywfaint o'r wybodaeth a roddir yn y diweddariad hwn newid. Byddwn yn tynnu sylw at newidiadau i'r Bil mewn diweddariadau pellach.

Mae'r trydydd diweddariad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig
- rôl y Comisiwn yn y broses ddynodi
- y cyfnod gwneud cais am ddynodiad
- sut y caiff y penderfyniad dynodi ei wneud
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig

Bydd un grŵp ymgyrchu arweiniol dynodedig (a elwir hefyd yn sefydliad dynodedig) yn cynrychioli pob ochr o ddadl y refferendwm. Y grŵp hwn fydd y grŵp ymgyrchu arweiniol ar ran y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw.

Mae'r manteision i grwpiau ymgyrchu arweiniol dynodedig fel a ganlyn:

- terfyn gwariant uwch
- dosbarthu eu gwybodaeth am ddim i bleidleiswyr
- darllediadau ymgyrchu ar gyfer y refferendwm

- defnydd am ddim o ystafelloedd cyhoeddus penodol
- grant drwy arian cyhoeddus

Rôl y Comisiwn yn y broses ddynodi

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), ni fydd yn gyfrifol am ddynodi ymgyrchwyr arweiniol ar gyfer pob canlyniad yn ystod refferendwm. Mae PPERA yn cynnwys prawf statudol y mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau i fod yn ymgyrchydd arweiniol.

Yn ôl Bil Refferendwm yr UE, gall y Comisiwn ddynodi ymgyrchwyr arweiniol yn unol â'r dull gweithredu a nodir yn PPERA. Fodd bynnag, mae'r Bil ar ei hynt drwy'r Senedd a Thŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd ac fel yn achos pob Bil, gall newid yn sylweddol cyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol ar y cam Cydsyniad Brenhinol.

Y cyfnod gwneud cais am ddynodiad

Ar hyn o bryd, mae'r Bil yn defnyddio'r amserlen ddynodi a nodir yn PPERA. Bydd yn rhaid i ymgyrchydd cofrestredig sy'n ceisio dynodiad gyflwyno cais o fewn 28 diwrnod i ddechrau cyfnod y refferendwm.

Gallwn roi rhagor o wybodaeth am yr amserlen ar gyfer ceisiadau am ddynodiadau ar ôl i'r Llywodraeth gyhoeddi dyddiad y refferendwm a dyddiadau'r cyfnod a reoleiddir.

Caiff y dyddiadau eu cadarnhau mewn Rheoliadau a gyhoeddir ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth hon ar ein gwefan ac mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Sut y caiff y penderfyniad dynodi ei wneud?

Gall ymgyrchwyr cofrestredig wneud cais i'r Comisiwn i gael eu penodi yn ymgyrchwyr arweiniol dynodedig. Mae PPERA yn cynnwys prawf statudol y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei ddefnyddio wrth asesu ceisiadau am ddynodiad.

Mae dwy ran i'r prawf statudol yn PPERA:

- os mai dim ond un ymgeisydd sydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi ymgeisydd heblaw ei fod yn anfodlon bod yr ymgeisydd yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw yn ddigonol, ac
- os oes mwy nag un ymgeisydd ar gyfer canlyniad, bydd y Comisiwn yn dynodi'r ymgeisydd sydd, yn ei farn ef, yn cynrychioli orau y rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw heblaw ei fod yn anfodlon bod unrhyw rai o'r ymgeiswyr yn cynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad hwnnw yn ddigonol.

Yn ôl PPERA, rhaid i ni ddynodi ymgyrchwyr arweiniol ar gyfer y ddau ganlyniad neu ni fydd modd i ni ddynodi o gwbl. Byddwn yn ystyried pob cais ar sail ei rinweddau yn erbyn y prawf statudol.

Pan wnaethom asesu ceisiadau ar gyfer y Refferendwm ar Annibyniaeth yr Alban, gwnaethom ddefnyddio

proses gwneud penderfyniadau i gymhwyso'r prawf, yn seiliedig ar y meini prawf a nodir isod. Ar sail y ddeddfwriaeth ar gyfer y refferendwm ar aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ar ei drafft presennol, disgwyliwn i'r Comisiwn ystyried materion tebyg yn ystod y broses ddynodi ar gyfer refferendwm yr UE:

- sut mae amcanion yr ymgeisydd yn cyd-fynd â'r canlyniad y mae'n ei gefnogi i'r refferendwm
- y lefel a'r math o gefnogaeth sydd i'r cais
- sut mae'r ymgeisydd yn bwriadu ymgysylltu ag ymgyrchwyr eraill
- capasiti sefydliad yr ymgeisydd i gynrychioli'r rhai sy'n ymgyrchu dros y canlyniad, a
- chapasiti'r ymgeisydd i gynnal yr ymgyrch (gan gynnwys ei uniondeb ariannol)

Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ddarpar ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau.

Cysylltwch â ni ar 0333 103 1928
pef@electoralcommission.org.uk

Neu defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod:

- Lloegr:
pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban:
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru:
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan,
www.comisiwnetholiadol.org.uk,
gallwch gael:

- rhagor o wybodaeth am ein rôl
mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar
gyfer cynnal refferenda
- ein dull o asesu cwestiynau'r
refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y
refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n egluro ein
safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n
briodol